

**CARDIFF**  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
**CAERDYDD**

**GWEITHDREFN  
ADOLYGU'R BRIFYSGOL**

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
<b>Y Weithdrefn Adolygu.....</b>	<b>4</b>
<b>Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) .....</b>	<b>5</b>
<b>Siart Ilif .....</b>	<b>6</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Brifysgol yn gwneud llawer o benderfyniadau sy'n gysylltiedig â phob agwedd ar fywyd myfyrwyr, gan gynnwys eich presenoldeb a'ch ymgysylltiad, eich ymddygiad, a'ch astudiaethau academiaidd. Gwneir y penderfyniadau hyn yn unol â'n polisiau a'n gweithdrefnau. Mae trafodaethau o dan y polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr i herio penderfyniadau ffurfiol. Mae'n bwysig i'r Brifysgol eich bod yn deall eich hawliau a pham mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a'ch bod yn cael gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael i chi os ydych chi'n credu bod penderfyniad yn anghywir.
- 1.2 Mae gan bob un o weithdrefnau'r Brifysgol un cam adolygu fel bod gennych y cyfle i herio penderfyniad mewn ffordd deg a thryloyw. Mae'r Weithdrefn adolygu'n cadarnhau sut y gallwch herio penderfyniad a wnaed gan y Brifysgol, fel y nodwyd yn y weithdrefn berthnasol, drwy wneud cais am adolygiad. Mae hefyd yn disgrifio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl o'r broses. Mae'n bwysig eich bod yn deall eich rôl, y camau sydd angen eu cymryd, a sut y gallwch gael help pan fyddwch yn gwneud cais am adolygiad.
- 1.3 Bydd yr holl staff sy'n ystyried ceisiadau am adolygiadau wedi cael hyfforddiant ar gyfer eu rôl i weithio â'r weithdrefn hon a gweithdrefnau eraill cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys Staff Gwasanaethau Proffesiynol, Staff Academiaidd, ac Uwch Swyddogion y Brifysgol.
- 1.4 Fe'ch cynghorir i gael cyngor annibynnol gan [Gyngor i Fyfyrwyr Undeb y Myfyrwyrar](#) eich hawliau a'ch cyfrifoldebau a sut y gallwch gyflwyno cais am adolygiad.
- 1.5 Bydd angen rhesymau arnoch neu, 'seiliau' fel y'u gwelwir, i wneud cais am adolygiad. Rhaid i sail am adolygiad fod yn un neu ragor o'r canlynol, a dylech nodi ar ba sail/seiliau rydych yn gofyn am adolygiad, a rhoi esboniad a chyflwyno tystiolaeth ategol.
  - Anghysondeb gweithdrefnol h.y. ni chafodd y broses a ddisgrifiwyd i wneud y penderfyniad gwreiddiol ei dilyn;
  - Roedd y penderfyniad a/neu'r cam unioni'n afresymol ac nid oeddent yn cael eu cadarnhau gan ffeithiau'r achos;
  - Mae gwybodaeth neu dystiolaeth newydd ar gael nad oedd ar gael ar yr adeg pan gafodd eich achos gwreiddiol ei ystyried.
- 1.6 Gall pob myfyriwr sydd wedi cael penderfyniad ffurfiol o dan weithdrefn sy'n cadarnhau mynediad at y Weithdrefn Adolygu ddefnyddio'r weithdrefn adolygu. Dylai myfyrwyr a all fod angen addasiadau rhesymol i ddefnyddio'r Weithdrefn nodi hyn wrth Bennaeth y Gofrestrfa pan fyddant yn cyflwyno'u cais am adolygiad.
- 1.7 Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir gennych fel rhan o'ch cais am adolygiad yn cael ei thrin yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, a bydd yn cael ei rhannu â staff sydd angen gwybod yn unig i brosesu eich cais am adolygiad.

## 2. Y Weithdrefn Adolygu

- 2.1 Gallwch wneud cais i adolygu penderfyniad y Brifysgol a wnaed mewn cysylltiad â defnydd o weithdrefn Prifysgol o fewn **14 diwrnod** o gael y penderfyniad. Os na allwch wneud cais am adolygiad o fewn yr amser hwn, dylech egluro pam, yn ysgrifenedig, fel rhan o'ch cais am adolygiad. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr am adolygiad oni bai eich bod yn gallu dangos pam nad oedd yn bosibl nac yn rhesymol i chi i gyflwyno cais am adolygiad o fewn yr amserlen benodedig. Disgwylir i chi gyflwyno tystiolaeth i ategu eich rheswm/rhesymau.
- 2.2 Mae'r seiliau dros wneud cais am adolygiad wedi'u nodi ym mharagraff 1.6 uchod. Bydd yn rhaid i chi ddangos bod gennych achos digon cryf o dan un neu ragor o'r seiliau adolygu a bod gennych dystiolaeth i'w ategu er mwyn iddo fod yn gymwys i'w ystyried. Os na fydd sail dros adolygu wedi'i roi, a/neu os nad oes achos digon cryf wedi'i gyflwyno, a/neu bod dim tystiolaeth wedi'i rhoi, ni fydd y cais yn cael ei ystyried neu gellir ei wrthod.
- 2.3 Mae amserlenni ar gyfer pob cam o'r adolygiad er mwyn i chi allu mynegi pryder ac i'r Brifysgol i ymateb i'ch pryderon.
- 2.4 Daw'r staff Prifysgol a fydd yn ystyried eich adolygiad o'r tu allan i'ch Ysgol neu'r maes gwasanaeth lle mae'r mater wedi codi ac ni fydd ganddynt ddim cysylltiad personol â chi neu unrhyw barti arall a oedd yn gysylltiedig â'r achos gwreiddiol. Mae hyn er mwyn sicrhau, i'r graddau sy'n bosibl, yr ymdrinnir yn amhleidiol â'ch cais am adolygiad.
- 2.5 Caiff pob cais ei ystyried yn deg ac ar sail yr wybodaeth a'r dystiolaeth a roddir.
- 2.6 Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn goruchwyllo pob cais am adolygiad, a byddant yn rhoi gwybod i chi o fewn **7 diwrnod** a yw eich adolygiad o fewn y seiliau/terfynau amser a ganiateir, ac a yw wedi ei dderbyn i'w ystyried.. Os nad yw'n gymwys i gael ei ystyried, byddwch yn cael llythyr Cwblhau'r Weithdrefn a byddwch yn cael gwybodaeth am rôl Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os ydych chi'n anfodlon â'r canlyniad.
- 2.7 Os yw eich cais am adolygiad yn gymwys i'w ystyried, bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn atgyfeirio'r achos at Uwch Academydd neu Uwch Swyddog fel fydd yn briodol.
- 2.8 Bydd Uwch-swyddog/Academydd yn ystyried yr apêl, a bydd yn dod o Ysgol, Coleg neu Adran wahanol, ac wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio'r weithdrefn hon. Ni fydd staff sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r achos yn flaenorol yn chwarae rhan mewn unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol, ond gallant roi tystiolaeth neu eglurhad i'r Uwch-swyddog/Academydd os ceir cais am hynny.
- 2.9 Bydd yr Uwch-swyddog/Academydd yn ystyried:
  - sylwadau a'r dystiolaeth yn eich cais am adolygiad; a

- phenderfyniad y Brifysgol a'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw; **a'r**
  - holl bapurau a'r ymchwiliadau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â rhan flaenorol y gweithdrefnau, a bydd ganddynt fynediad atynt i gyd.
- 2.10 Os bydd angen eglurhad pellach gennych chi neu aelod o staff ar ffeithiau'r achos, gwneir cais am hyn fel fydd yn briodol.
- 2.11 Ceir penderfyniad yr Uwch-swyddog/Academydd a bydd yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr o fewn **28 diwrnod** o'r ystyriaeth ffurfiol.
- 2.12 Yr opsiynau sydd ar gael i'r Uwch Academydd/Swyddog yw:
- gwrthod y cais am adolygiad a chadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol; **neu**
  - atgyfeirio'r achos yn ôl at y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol lle mae sail wedi'i gadarnhau; **neu**
  - gwneud penderfyniad arall a ganiateir gan Rheoliad, Polisi neu Weithdrefn y Brifysgol.

### 3. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)

- 3.1 Ar ôl cwblhau'r cais am adolygiad, byddwch yn cael llythyr Cwblhau'r Weithdrefn sy'n cadarnhau eich bod wedi defnyddio'r opsiynau a oedd ar gael i herio'r penderfyniad o fewn y Brifysgol. Mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os ydych chi'n teimlo nad yw'r Brifysgol wedi dilyn y weithdrefn gywir neu ei bod wedi gwneud penderfyniad afresymol. Mae rhagor o wybodaeth am Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gael yn <http://www.oiahe.org.uk/>.

#### 4. Siart Ilif

Cyflwyno cais i adolygu penderfyniad y Brifysgol o fewn **14 diwrnod** o gael y penderfyniad.



Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn eich hysbysu **o fewn 7 diwrnod** os caiff eich cais am adolygiad ei ganiatáu o dan y seiliau ac y bydd yn cael ei ystyried, ynteu a fydd yn cael ei gwrthod



Bydd yr Uwch Academydd/Swyddog yn ystyried yr achos ac yn penderfynu gwrthod y cais am adolygiad ac yn cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, yn atgyfeirio'r achos yn ôl at y sawl wnaeth y penderfyniad gwreiddiol lle bydd sail yn cael ei gadarnhau, neu wneud penderfyniad arall o fewn Rheoliadau'r Brifysgol.



Cewch eich hysbysu o'r penderfyniad terfynol ar y cais am adolygiad **o fewn 28 diwrnod** iddo gael ei adolygu gan yr Uwch Academydd/Swyddog. Gelwir y llythyr hwn yn llythyr Cwblhau'r Weithdrefn.